# Caernarfon - Groeslon

## Pellter / Distance: 7km/4.4m

Os dymunwch, gallwch gychwyn eich taith yng Nghaernarfon, gellid honni mai'r 'cyntedd' sydd yn arwain at grynswth y daith yw'r rhan gyntaf hon sydd yn gadael y dref ac yn ymlwybro ar hyd gwastadedd gogledd Arfon. Cewch ddilyn Lôn Eifion, llwybr i gerddwyr a beicwyr ar wely'r hen reilffordd a arferai redeg i Afonwen. Gyfochrog â'r llwybr mae Rheilffordd Ucheldir Eryri sy'n cychwyn ar ei thaith i galon Eryri. Os am brofi golygfeydd o'r môr wrth geg y Fenai mae gennych ddewis i adael Caernarfon ar hyd y lôn fach sydd yn dilyn ar hyd ymyl y lan cyn ymuno â Lôn Eifion wrth Llanwnda. Mae'r llwybr wedyn yn teithio heibio Groeslon, un o'r pentrefi di-rif a dyfodd yn sgîl y diwydiant llechi.



*Fioled cyffredin*
*Common dog violet*

Caernarfon can be the starting point for your journey. One could say that this first section is the 'hallway' leading to the main route as you leave the town and wander along the lowlands of north Arfon. You can follow the Lôn Eifion cycle path, built on the bed of the railway that once ran to Afonwen. Alongside the path runs the 'Welsh Highland' railway, beginning its journey to the heart of Snowdonia. However, if you wish to experience sea views near the mouth of the Menai Strait you can opt to leave Caernarfon via the minor road, which goes along the shore before joining Lôn Eifion near Llanwnda. The route then passes Groeslon, one of many villages that grew around the slate industry.

*Eithin/Gorse*





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
Hawlfraint y Goron
Mae ailgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
Crown copyright
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007